



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:

Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig
Sefydliadau preifat sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch dynodedig ar gyfer myfyrwyr
Cymru
Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr
UCAS
Y Brifysgol Agored yng Nghymru
Grŵp Rhanddeiliaid Cyllid Myfyrwyr Cymru
UCM Cymru
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Prifysgolion Cymru
Anabledd Cymru
Cymdeithas Technoleg Gynorthwyol Prydain
Canolfannau Asesu Annibynnol yng Nghymru
Aelodau Grŵp Rhanddeiliaid Myfyrwyr Anabl
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

25 Mawrth 2015

Annwyl Gyfaill

CYMORTH I FYFYRWYR ADDYSG UWCH – NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R POLISI AR GYFER LWFANSAU I FYFYRWYR ANABL O GYMRU YM MLWYDDYN ACADEMAIDD 2016/17

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar sefydliadau addysgol i wneud
'addasiadau rhesymol', a allai gynnwys:

- gwneud newidiadau i reol, gofyniad neu arfer
- gwneud newidiadau i adeilad neu safle
- darparu offer a fydd yn helpu.

Hyd yn hyn, oherwydd y ddarpariaeth Lwfansau i Fyfirwyr Anabl unigol, ni fu angen
addasiadau rhesymol mewn rhai achosion. Rydym yn cynnig na ddylai cyllid y Lwfans fod
ar gael bellach i fyfirwyr mewn achosion lle disgwylir i addasiad rhesymol gael ei wneud.

Cyllid Myfyrwyr Lloegr

Mewn datganiad ysgrifenedig gan David Willetts, y Gweinidog dros Prifysgolion a
Gwyddoniaeth, ar 7 Ebrill 2014, nodwyd cynigion i newid y Lwfansau i Fyfirwyr Anabl a
delir i fyfirwyr sy'n hanu o Loegr, sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch yn Lloegr,



Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 01/2015)

Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn sgil ymgysylltu â rhanddeiliaid dros yr haf, cafwyd disgrifiad o'r newidiadau i'r Lwfansau gan y Gweinidog newydd dros Brifysgolion a Gwyddoniaeth, Greg Clark, yn ei [ddatganiad ysgrifenedig](#) ar 12 Medi 2014. Cafodd gwybodaeth i rhanddeiliaid ei chyhoeddi ar 11 Mawrth 2015, yn cadarnhau manylion pellach y newidiadau polisi.

Bydd Cyllid Myfyrwyr Lloegr yn gweithredu'r newidiadau canlynol o ddechrau blwyddyn academiaidd 2015/16. Bydd y newidiadau'n berthnasol i bob myfyriwr llawn amser, rhan-amser ac ôl-radd (gan gynnwys dysgu o bell), sy'n gwneud cais am Lwfans i Fyfirwyr Anabl am y tro cyntaf, a hynny ar gyfer y flwyddyn academiaidd sy'n dechrau ar 1 Medi 2015, neu wedi hynny.

- (i) Bellach, ni fydd y Lwfans yn talu am gyfrifiaduron sydd â manyleb uwch, a/neu sy'n costio mwy, dim ond oherwydd y ffordd y mae cwrs yn cael ei ddarparu. Bydd y Lwfans yn parhau i fod ar gael lle mae ar fyfyriwr angen cyfrifiadur o'r fath ar sail ei anabledd yn unig. Disgwylir i fyfirwyr anabl cymwys dalu'r £200 cyntaf tuag at gost cyfrifiadur (yn unol â'r hyn a gyflwynwyd ar gyfer 2015/16 yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Diwygio) 2014.
- (ii) Dim ond canolfannau asesu a darparwyr gwasanaethau technoleg gynorthwyol sydd wedi eu hachredu neu eu cofrestru gyda'r Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau i Fyfirwyr Anabl sy'n cael darparu asesiadau o anghenion astudio neu wasanaethau technoleg gynorthwyol a ariennir o dan y Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.

Mae'r canlynol hefyd yn cael eu cynnig o flwyddyn academiaidd 2016/17:

- (i) Bellach, ni fydd eitemau ychwanegol megis argraffwyr, sganwyr, nwyddau traul a llyfrau yn cael eu hariannu fel mater o arfer drwy'r Lwfansau.
- (ii) Lle bydd y sefydliad neu ei asiant yn darparu llety arbenigol i fyfirwyr, y sefydliad yn hytrach na'r Lwfans fydd yn talu'r costau ychwanegol. Nid yw hyn yn berthnasol i lety sy'n cael ei rentu'n breifat.
- (iii) Ni fydd myfirwyr anabl bellach yn cael cyllid Lwfans ar gyfer rhai mathau o gymorth anfeddygol megis cymryd nodiadau, trawsgrifio, neu gymorth sy'n gysylltiedig â'r llyfrgell neu weithdai, o flwyddyn academiaidd 2016/17, oherwydd disgwylir i sefydliadau addysg uwch yn y DU ddarparu eu cyrsiau mewn ffyrdd mwy hwylus. Bydd myfirwyr sy'n hangu o Loegr, ac sydd ag anghenion cymorth mwy arbenigol, yn parhau i gael cyllid o dan y Lwfans. Lle na fydd yr anawsterau'n ddigon difrifol, disgwylir i sefydliadau addysg uwch chwarae rôl o ran rhoi cymorth i fyfirwyr, fel rhan o'u dyletswyddau i ddarparu addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Bydd ymgysylltu pellach yn digwydd gyda rhanddeiliaid yn ystod 2015 mewn perthynas â'r newidiadau hyn.

Bydd Proses Achosion Eithriadol yn cael ei sefydlu.

Mae canllawiau pellach ar gyfer y newidiadau polisi arfaethedig yn Lloegr ar gael yma: www.practitioners.slc.co.uk/dsas-updates-for-practitioners.

Cyllid Myfyrwyr Cymru

O ran y myfirwyr sy'n hangu o Gymru, mae Lwfansau i Fyfirwyr Anabl yn rhan o'r pecyn cymorth statudol i fyfirwyr y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru. Yng Nghymru yn 2012/13, rhoddwyd oddeutu gwerth £9.2m o Lwfansau i 3,729 o

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 01/2015)

fyfyrwyr tuag at amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys darparu gweithwyr cymorth, prynu cyfrifiaduron ac offer arbenigol, a chymorth gyda chostau teithio. Ym mlwyddyn academiaidd 2012/13 (y ffigurau diweddaraf sydd ar gael), roedd 12,270 o fyfyrwyr anabl yn astudio mewn sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. O'r rhain, roedd 6,925 yn dod o Gymru, a 4,745 o Loegr. Hefyd, roedd 1,300 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn astudio ar gyrsiau'r Brifysgol Agored.

Yn sgil y cyhoeddiad yn Lloegr, mae'r polisi ar gyfer Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod cyllid y Lwfansau'n cael ei dargedu'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod gorgyffwrdd yn digwydd rhwng y ddyletswydd benodol a roddir ar sefydliadau i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r cyllid a roddir i'r unigolyn drwy'r Lwfansau.

Mae manylion y newidiadau arfaethedig i bolisi Cyllid Myfyrwyr Cymru i'w gweld yn yr Atodiad isod.

Mae ffurflen i randdeiliaid nodi eu hymatebion ynghlwm wrth y llythyr hwn.

A fyddechystal â rhannu'r ddogfen hon â'ch aelodau ac unrhyw sefydliadau eraill a fyddai â diddordeb.

YMHOLIADAU

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn, cysylltwch ag Is-adran Addysg Uwch Llywodraeth Cymru ar e-bost HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Trosolwg

Ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd Llywodraeth San Steffan gynigion ar gyfer cyflwyno newidiadau i'r Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr, a hynny o flwyddyn academiaidd 2015/16. Bydd y newidiadau'n golygu bod yn rhaid i brifysgolion adolygu eu trefniadau cymorth presennol.

Nod yr ymarfer ymgysylltu hwn yw cael sylwadau ar y newidiadau arfaethedig i'r polisi ar gyfer Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl yng Nghymru.

Cynulleidfa

Sefydliadau Addysg Uwch; Sefydliadau Addysg Bellach; Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr; y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr; y Brifysgol Agored yng Nghymru; partïon eraill sydd â buddiant.

Sut i ymateb

Dylai rhanddeiliaid anfon eu sylwadau am y cynigion hyn i Lywodraeth Cymru erbyn **30 Mehefin 2015**. Dylid nodi'r sylwadau ar y ddalen ymateb sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn, a'i dychwelyd drwy e-bost i: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk.

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 01/2015)

Gwybodaeth bellach a'r dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras neu Braille o'r ddogfen hon a'r ffurflen ymateb, a hefyd fersiynau mewn ieithoedd eraill, ar gael ar gais.

Mae copi o'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn gan Cyllid Myfyrwyr Cymru a'r Ffurflen Ymateb ar gael hefyd ar y wefan ganlynol: www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am yr ymarfer ymgysylltu hwn, e-bostiwrch: HEDConsultationsMailbox@cymru.gsi.gov.uk
Neu ysgrifennwch i:

Yr Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni:

Bydd unrhyw ymateb yr ydych yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru wrth iddynt ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â'r ymarfer ymgysylltu hwn. Mae'n bosibl y bydd staff eraill yn Llywodraeth Cymru hefyd yn ei weld er mwyn eu helpu i gynllunio ymarferion ymgysylltu yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb, gan fod hynny'n helpu i ddangos bod yr ymarfer ymgysylltu wedi ei gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhwch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb, a byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd enwau a chyfeiriadau yr ydym wedi eu cuddio yn cael eu cyhoeddi yn nes ymlaen, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn gan ofyn am ei sylwadau cyn penderfynu a ydym am ddatgelu'r wybodaeth ai peidio.

Crynodeb o'r newidiadau arfaethedig i'r cymorth a ddarperir drwy'r Lwfansau i Fyfirwyr Anabl yng Nghymru

Mae Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ar gael i dalu'r costau astudio ychwanegol sy'n wynebu myfyrwyr anabl o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd, cyflwr iechyd tymor hir, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2015 yn dweud y caiff Lwfansau i Fyfirwyr Anabl gael eu dyfarnu i fyfirwyr sy'n gorfod talu costau ychwanegol wrth astudio, a hynny o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd.

Pe bai'r newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno, byddent yn berthnasol i bob myfyriwr llawn amser, rhan-amser ac ôl-radd (gan gynnwys dysgu o bell) sy'n gwneud cais am Lwfansau i Fyfirwyr Anabl am y tro cyntaf ar gyfer blwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Medi 2016, neu wedi hynny.

1. Cymorth TG

Mae'r Lwfansau ar gyfer offer arbenigol yn cael eu ddefnyddio i brynu offer sylfaenol a meddalwedd cyfrifiadurol nad yw'n arbenigol, gan gynnwys lle nad yw'r angen am yr offer na'r feddalwedd yn seiliedig ar anabledd y myfyriwr yn unig.

Yr hyn a gynigir:

Ni fydd cyfrifiaduron 'lefel mynediad' yn cael eu hariannu o dan Lwfansau i Fyfirwyr Anabl. Bydd cyfrifiaduron a meddalwedd gynorthwyol o fanyleb uwch na 'lefel mynediad' yn cael eu hariannu drwy'r Lwfansau dim ond mewn achosion lle mae'r angen yn seiliedig ar anabledd, ac nid oherwydd sut mae'r cwrs yn cael ei ddarparu. Byddai disgwyl i fyfirwyr cymwys wneud cyfraniad ariannol tuag at gost y cyfrifiadur. (Gweler cwestiwn 1 ar y ffurflen ymateb amgaeedig)

Mewn achosion lle mae'n cael ei nodi bod angen cyfrifiadur o fanyleb uwch na lefel mynediad, byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid Lwfansau i Fyfirwyr Anabl, cyn belled â bod y myfyriwr yn cyfrannu at gost y cyfrifiadur.

2. Nwyddau ymylol a nwyddau traul - TG

Dylai prifysgolion a cholegau ddarparu dewisiadau amgen megis gwasanaethau argraffu, a llyfrau a chylchgronau mewn fformat electronig, wrth gyflawni eu dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Yr hyn a gynigir:

Ni fydd nwyddau ymylol TG a nwyddau traul ar gael ond mewn amgylchiadau cyfyngedig. Bydd y canllawiau'n nodi pryd y bydd cyllid Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ar gael i fyfirwyr ar gyfer gwariant ar nwyddau ymylol TG (megis argraffwyr a chetris inc) a nwyddau traul eraill.

3. Llety

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi dyletswydd benodol ar sefydliadu i wneud addasiadau rhesymol, gan gynnwys darparu llety addas, er mwyn sicrhau nad yw

Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru (SFWIN 01/2015)

myfyrwyr anabl o dan anfantais sylweddol. Mae'r dyletswyddau hyn hefyd yn berthnasol i sefydliadau sy'n gweithredu fel 'asiant' i'r sefydliad, gan gynnwys darparwyr llety preifat sydd o dan gontract iddo. Ar ôl i addasiad rhesymol gael ei wneud, ni ellir pasio'r gost o'i ddarparu ymlaen i'r myfyriwr.

Yr hyn a gynigir:

Dim ond o dan amgylchiadau cyfyngedig y bydd cyllid Lwfansau i Fyfirwyr Anabl yn parhau i fod ar gael. O ran myfyrwyr anabl sy'n gwneud cais am Lwfans i Fyfirwyr Anabl am y tro cyntaf ym mlwyddyn academaidd 2016/17, ni fydd cyllid y Lwfans ar gael tuag at gostau ychwanegol llety arbenigol lle bydd y llety

- yn perthyn i'r sefydliad neu ei asiant, neu'n cael ei ddarparu gan un ohonynt, gan gynnwys darparwyr llety preifat sydd o dan gontract gyda sefydliad.
- yn dod o dan Gynllun Gofal/Llwybr awdurdod lleol. Bydd yr awdurdod lleol yn parhau i ariannu llety.

Bydd Lwfansau i Fyfirwyr Anabl yn parhau i fod ar gael ar gyfer costau ychwanegol llety arbenigol, y mae'n rhaid eu talu oherwydd anabledd, lle mae'r llety'n cael ei rentu'n breifat gan landlord ac nad yw'n berthnasol i'r enghreifftiau uchod.

Bydd cost y llety'n cael ei chymharu â llety arall nad yw'n arbenigol yn yr un ardal er mwyn pennu cost ychwanegol resymol. Lle bydd y myfyriwr wedi dewis llety en-suite mewn uned lle mae'r holl llety en-suite ac ar gael i'r holl fyfirwyr, ni fydd unrhyw arian ychwanegol yn cael ei ddarparu. Bydd eithriadau eraill yn cael eu hystyried o dan y Broses Achosion Eithriadol.

Bydd canllawiau ar gael i egluro'r cymorth y disgwylir i brifysgolion a cholegau ei ddarparu o dan eu dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

4. Cymorth anfeddygol

Gofynnir i brifysgolion a cholegau wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 mewn perthynas ag unrhyw elfennau o gwrs sy'n rhoi myfyriwr anabl o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â myfyriwr nad yw'n anabl.

Yr hyn a gynigir:

O flwyddyn academaidd 2016/17, ni fydd myfyrwyr anabl cymwys yn cael cyllid Lwfansau i Fyfirwyr Anabl ar gyfer rhai mathau o gymorth anfeddygol, megis cymryd nodiadau, trawsgrifio, neu gymorth ar gyfer y llyfrgell neu weithdai, gan fod disgwyl i sefydliadau addysg uwch yn y DU ddarparu eu cyrsiau mewn modd hwylus. Bydd myfyrwyr anabl sydd ag anghenion cymorth mwy arbenigol yn parhau i gael cyllid Lwfansau i Fyfirwyr Anabl.

Bydd myfyrwyr sydd ag Anawsterau Dysgu Penodol yn parhau i gael cymorth drwy Lwfansau i Fyfirwyr Anabl lle ystyrir bod eu hanghenion cymorth yn fwy cymhleth. Os bydd effaith eu hanawsterau ar eu hastudiaethau'n eglur, disgwylir i sefydliadau addysg uwch roi cymorth i fyfirwyr fel rhan o'u dyletswyddau i ddarparu addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

5. Ffioedd asesu anghenion

Mae'r ffioedd yn amrywio o ganolfan i ganolfan, gyda'r rhan fwyaf ohonynt rhwng £500 a £780, ac un ganolfan yn codi ffi o £954.

Yr hyn a gynigir:

Gan fod y ffioedd yn cael eu talu o arian cyhoeddus, rydym yn ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio capio fel ffordd o reoli'r ffioedd a godir, a sicrhau bod y gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian.

6. Proses Asesu Anghenion

Mae ymarferwyr a myfyrwyr wedi codi pryderon ynghylch hyd y broses hon oherwydd gallai dros 3 mis fynd heibio rhwng gwneud y cais cychwynnol a sefydlu'r cymorth.

Yr hyn a gynigir:

Rydym yn gwahodd sylwadau ar sut y gellid symleiddio a chyflymu'r broses asesu anghenion o fewn y broses ymgeisio. Rydym yn ystyried a ddylai Swyddogion Anabledd mewn prifysgolion gymryd rhan yn y broses yn gynharach mewn achosion sy'n syml ac eglur, er mwyn nodi lle byddai'n bosib gweithredu addasiadau rhesymol yn gyflym.

7. Cofrestru aseswyr a darparwyr:

Ar hyn o bryd, nid yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfywyr) (Cymru) 2015 yn pennu sut y dylid asesu angen myfyriwr anabl i gael cymorth Lwfans i Fyfywyr Anabl, neu bwy ddylai gynnal asesiad o'r fath.

Yr hyn a gynigir:

Y bwriad, o flwyddyn academaidd 2016/17 ymlaen, yw cynnwys darpariaeth yn y canllawiau sy'n dweud mai dim ond ar sail asesiad o anghenion astudio sydd wedi ei gynnal gan gyflenwr cymeradwy y dylid talu Lwfansau i Fyfywyr Anabl.

Ar hyn o bryd, y bwriad yw y bydd Grŵp Sicrhau Ansawdd Lwfansau i Fyfywyr Anabl yn cynnal archwiliadau o ddarparwyr a chyflenwyr er mwyn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli mewn modd effeithiol a phriodol.

8. Proses Achosion Eithriadol

Cydnabyddir y gallai fod yn aneglur, mewn rhai achosion prin, a yw'n rhesymol disgwyl i sefydliad ddarparu addasiad ar gyfer y myfyriwr anabl, neu a ddylid ystyried yr angen am gymorth o dan y Lwfansau i Fyfywyr Anabl.

Yr hyn a gynigir:

Bydd Proses Achosion Eithriadol yn cael ei sefydlu er mwyn i Cyllid Myfyrwyr Cymru allu ystyried, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, a ddylid darparu cyllid drwy'r Lwfans i Fyfywyr Anabl fel mesur dros dro, neu a ddylid gwneud eithriad, wedi ystyried holl amgylchiadau'r achos. Ni ddisgwylir i'r broses hon gael ei defnyddio ond mewn amgylchiadau prin. Mae'n bosibl y bydd cyngor arbenigol annibynnol yn cael ei geisio.